

Atodiad F – Adroddiad Blynyddol

At sylw Gweinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol **Bro Morgannwg** ar gyfer **2025-26**.

1. Y camau sydd wedi'u cymryd i hyrwyddo teithio llesol.

Gwnaed gwelliannau i gerddwyr mewn lleoliadau amrywiol yn y Fro gan gynnwys cyrbau isel, palmant botymog ac ehangu'r droedffordd.

Parhaodd swyddogion i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Cerdded, Olwyna a Beicio ysgolion i ysgrifennu eu Cynlluniau Teithio Llesol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cerdded, beicio a mynd ar sgwter i'r ysgol bob dydd, gan leihau tagfeydd a gwella diogelwch wrth gathau'r ysgol.

Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd rhan yng Ngrŵp Siarter Staff Iach y Fro, gan weithio gyda'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn diweddarau ei wefan Teithio Llesol (TLI) yn rheolaidd ac mae'n parhau i'w hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/Active-Travel-and-Safe-Routes-in-Communities-Projects.aspx>

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi clipiau TLI byr yn rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon TLI a gofyn am awgrymiadau a sylwadau gan y cyhoedd. Mae'r clip llawn ar dudalen we Bro Morgannwg - [Teithio Llesol \(valeofglamorgan.gov.uk\)](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/Active-Travel-and-Safe-Routes-in-Communities-Projects.aspx)

Mae'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Awdurdodau Lleol eraill, Llywodraeth Cymru, Sustrans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn rhannu arfer da a gwybodaeth. Rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'n cynrychiolwyr Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i drafod prosiectau presennol ac yn y dyfodol.

Darparwyd cyfleusterau storio sgwteri a beiciau mewn 4 ysgol arall yn y Fro.

Gosodwyd cyfleusterau storio beiciau mewn lleoliadau ledled y Fro y gofynnwyd amdanynt gan ffynonellau amrywiol, fel aelodau'r cyhoedd.



Cysgodfan â Tho Gwyrdd yn Cosmeston

Darparwyd Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol lefel 1 a 2 i fwy na 600 o ddisgyblion. Gyda chymorth gwirfoddolwyr a'n swyddog Hyfforddiant Cerddwyr Ifanc, yn ystod 2025/26, cwblhaodd cyfanswm o 500 o ddisgyblion Hyfforddiant Kerbcraft a Cherddwyr Ifanc yn Ysgolion Cynradd y Fro.



Parhaodd 10 ysgol â'u her [Cerdded Unwaith yr Wythnos \(WOW\) Living Streets](#) i annog TLI i'r ysgol o oedran ifanc.

2. Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig.

Disgwylir i bob cynllun datblygu newydd ym Mro Morgannwg gynnig seilwaith Teithio Llesol ac mae swyddogion yn gwneud sylwadau ar yr holl gynlluniau teithio sy'n cael eu paratoi drwy'r Broses Gynllunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Disgwylir i bob datblygiad gynnig seilwaith Teithio Llesol naill ai trwy waith priffyrdd A278/A38 a/neu gyllid A106.

Defnyddir y Gronfa Dyrannu Teithio Llesol Graidd, Arian Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ac Arian Trafnidiaeth Gynaliadwy Adran 106 i wella llwybrau TLI (seilwaith newydd, cyrbau isel, palmant botymog, croesfannau) a darparu cyfleusterau storio beiciau a gorsafoedd atgyweirio beiciau mewn ysgolion ac yn y Sir.



Dyfarnwyd Cyllid Ffyniant Gyffredin ar gyfer gosod Locer Beiciau Brompton yng Nghogan, yn ogystal â gwneud gwelliannau i gerddwyr ar lwybrau sy'n arwain at ganol tref Penarth.

Locer Beiciau Brompton yng Nghogan

3. Costau yr aethpwyd iddynt ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gafodd eu gwneud yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol

Defnyddiwyd grant craidd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 25/26, gwerth £633,989.56, ar gyfer:

- Parhad o ddyluniad y llwybr teithio llesol rhwng y Barri a Dinas Powys
- Parhau o ddyluniad Cam 1 llwybr teithio llesol rhwng Waycock Cross a'r Maes Awyr
- Darparu llochesi a chyfleusterau storio beiciau/sgwteri mewn ysgolion
- Darparu cyfleusterau parcio beiciau yng nghanol trefi/pentrefi
- Gosod cyrbau isel, palmant botymog a gwelliannau i lwybrau.
- Gwaith archwilio a pharatoi sy'n ymwneud ag ailgyflwyno'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol
- Hyrwyddo Teithio Llesol mewn ysgolion
- Gwaith arolwg i ystyried 'strydoedd tawel'
- Fflyd feiciau mewn 5 ysgol

Cyllid Teithio Llesol blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £340,379.56 ar gyfer gwelliannau i gerddwyr yn Nwyrain y Barri i gynorthwyo gyda symudiadau disgyblion i ysgolion a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus.

Cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £194,056.79 ar gyfer gwelliannau i lwybrau cerddwyr i ysgolion sy'n treialu cau strydoedd ysgolion yn y dyfodol.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £49,796.89 ar gyfer gwelliannau i gerddwyr ar Buttrills Road, Y Barri.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £4,569.00 ar gyfer uwchraddio goleuadau drwy danffordd yng Ngwenfô.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £3,805.00 ar gyfer darparu seddi ychwanegol ar faes hamdden Gwenfô.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £136,421.30 ar gyfer gosod croesfan twcan ar Ham Lane East, Llanilltud Fawr.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £18,554.46 ar gyfer gwelliannau i gerddwyr yn Borough Close, y Bont-faen sy'n arwain at Ysgol Gynradd Y Bont Faen.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £7,678.89 ar gyfer gosod goleuadau newydd Cross Inn Lane, y Bont-faen.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £2,251.07 ar gyfer amnewid mainc South Road, Sili.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £1628.52 gar gyfer gosod mainc newydd Sain Tathan.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £4505.37 ar gyfer meinciau newydd yn Sain Nicolas.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £34,240.00 ar gyfer goleuadau yn Subway Road, Y Barri.

Cyllid Ffyniant Gyffredin blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £64,856.13 ar gyfer gosod 1 x Locer Beiciau Brompton yng Nghogan.

Cyllid Ffyniant Gyffredin blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £185,763 i wella llwybrau cerdded i ganol tref y Barri.

Cyllid Trawsnewid Trefi blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £47,437.60 ar gyfer datblygu llwybr cerdded ar draws Caeau'r Heddlu, y Bont-faen.

Cyllid Trawsnewid Trefi blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £25,000 i wella mynediad i gerddwyr yn Llanilltud Fawr.

Cyllid Partneriaeth Natur Leol blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £17,210 i brynu dau loches beiciau â tho gwyrdd ar gyfer Parc Gwledig Cosmeston a Chanolfan Gymunedol CF61, Llanilltud Fawr.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o'r seilwaith a weithredwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol

4. Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu neu eu hariannu'n rhannol gan drydydd partion.

Cyllid Trafnidiaeth Rhanbarthol Teithio Llesol Craidd blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £645,000

- Dylunio llwybr TLI o Waycock Cross i Faes Awyr Caerdydd
- Cyfleusterau storio beiciau mewn trefi, pentrefi ac ysgolion
- Gwelliannau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol (cyrbau isel a phalmant botymog)
- Archwiliad a pharatoi MRhTLI 2026
- Hyrwyddo Teithio Llesol mewn ysgolion
- Fflyd beiciau a sgwteri mewn ysgolion
- Gwelliannau i arwyddion
- Seddi
- Monitro a Gwerthuso
- Gorsafoedd atgyweirio beiciau
- Mesurau stryd yr ysgol
- Cyfoethogi llwybrau Teithio Llesol trwy chwarae a chelf
- Gwelliannau bioamrywiaeth ar hyd llwybrau Teithio Llesol

Cronfa Cerdded, Olwynion a Beicio Rhanbarthol blwyddyn ariannol 25/26 gwerth £1,090,041 i gwblhau adeiladu Cam 1 y llwybr Teithio Llesol sy'n cysylltu'r Barri â Dinas Powys.

Cyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy A106 blwyddyn ariannol 25/26 ar gael yn Sili, y Bont-faen, Penarth a'r Barri i alluogi gwelliannau i deithio llesol.

Dyfarnwyd cyllid Trawsnewid Trefi blwyddyn ariannol 25/26 ar gyfer gwelliannau i gerddwyr yn y Bont-faen (o amgylch Neuadd y Dref) a Phenarth (Hickman Road).

Dyfarnwyd cyllid blwyddyn ariannol 25/26 gan y Bartneriaeth Natur Leol ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth ar hyd Severn Road, Y Barri.

5. Hyd y llwybrau newydd ar gyfer cerdded, beicio a defnydd a rennir.

- *[darparu darnau ar wahân (mewn metrau) o lwybrau (a) cerdded, (b) beicio a (c) defnydd a rennir newydd]*

40 metr – VALE-BARRY-035A Skomer Road - adeiladu rhan o'r droedffordd sydd ar goll.

89 metr - St Brides Road, y Wig - llwybr i gerddwyr 2m o led fel rhan o ddatblygiad tai.

45m - 3.5m llwybr defnydd a rennir newydd sy'n cysylltu Lavernock Road â Champws newydd Ysgol y Deri, Fort Road, Cosmeston.

6. Hyd y llwybrau gwell ar gyfer cerdded, beicio a defnydd a rennir.

- *[Darparu darnau ar wahân (mewn metrau) o lwybrau (a) cerdded, (b) beicio a (c) defnydd a rennir gwell]*

1270 metr - VALE-SPR-012D Coldbrook Road East - 8 x croesfan heb eu rheoli a chyfyngiadau cyffyrdd.

100 metr - VALE-BARRY-033E Ewbank Close - 1 x croesfan heb ei reoli a chael gwared ar gyrbau radiws/ailwynebu'r troedffyrdd.

1134 metr - VALE-BARRY-035A Skomer Road - adeiladu rhan o droedffordd sydd ar goll, 9 x croesfan heb eu rheoli a chyfyngiadau cyffyrdd.

600 metr - VALE-BARRY-033C Dobbins Road - 7 x croesfan heb eu rheoli, culhau cyffyrdd ac uwchraddio arosfannau bysiau.

1300 metr - VALE-BARRY-033D Langlands Road - 18 x croesfan heb eu rheoli, culhau cyffyrdd ac uwchraddio arosfannau bysiau.

420 metr - VALE-BARRY-033F Arno Road a Norwood Crescent - 2 x croesfan heb eu rheoli a chael gwared ar gyrbau radiws.

580 metr - VALE-BARRY-034B Beidr Iorwig a Glas y Llwyn - 6 x croesfan heb eu rheoli a chulhau cyffyrdd.

360 metr - VALE-BARRY-034A Lôn Gilbert - 2 x croesfan heb eu rheoli.

1106m - Vale-PEN-022C/Vale-PEN-022E Cowslip Drive, Cogan - gwella troedffordd trwy adeiladu 7 croesfan heb eu rheoli a chyfyngiadau cyffyrdd.

296m - Vale-Barry-Future-037L Woodlands Road/Regent Street - gwella troedffordd drwy osod 1 x croesfan heb ei reoli ac 1 x croesfan cerbyd.

620m - Vale-PEN-023D - gwella troedffordd trwy osod 1 x cwrbyn isel y tu allan i Ysgol Gynradd Evenlode

400m - VALE-SPR-003K Eglwys Brewis - gwella llwybr defnydd a rennir drwy osod 10 colofn oleuadau i gynyddu diogelwch defnyddwyr yn ystod oriau tywyllwch.

7. Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell.

Darparwyd 128 o leoedd storio beiciau/sgwteri ychwanegol ledled y Fro yny flwyddyn ariannol 25/26:

- Darparwyd cyfleusterau storio sgwteri a beiciau mewn 5 ysgol arall yn y Fro.
- Darperir storio beiciau mewn lleoliadau yng Nghanolfan Gymunedol y Fro – Palmerston, Canolfan Gymunedol Sant Ffransis, Canolfan Gymunedol Cemetery Approach, ardal fanwerthu Skomer Road, Hostel Tŷ Iolo, Bae Jacksons, Western Shelter, Ynys y Barri, Pier Penarth, Promenâd Penarth, Parc Cosmeston, Parc Sglefrio Parc Bryn y Don, Albert Road, maes parcio'r Cnap, maes parcio Clifftops, Yr Hen Harbwr, Y Barri.

Mae seddi ychwanegol ar lwybrau teithio llesol wedi'u hychwanegu ar draws Bro Morgannwg. Mae hyn yn cynnwys:

- 2 fainc yn Sain Nicolas
- 1 mainc yn Sain Tathan
- 1 mainc ar Port Road
- 2 fainc yng Nghae Chwaraeon Colcot
- 2 fainc ar Heol Tynewydd, Y Barri
- 2 fainc ar Skomer Road, Y Barri

8. Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

dd/b

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y bydd ar gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (cyhoeddiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr: D R Thomas

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru: